Cyngor Tref

PWLLHELI

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6.30 y.h. NOS IAU 2 HYDREF 2014 YN SIAMBR Y CYNGOR,STRYDPENLAN,PWLLHELI.

COPI DRAFFT

Cof;- 0110/14 Presennol

.....

Y Maer, Cyng. Michael Sol Owen

Dirprwy Faer, Cyng. Henry Williams

Cyng. E J Hughes, Michael Parry,Elfed Gruffydd,Mici Plwm, Jonathan Roberts, Eric Wyn Roberts, Dewi O Jones, Alan Williams, Parch Ioan Gruffydd, Myrddin Owen, Iwan Edgar.

Cof;- 0210/14 Ymddiheuriadau

.....

Cyng. Eurig Evans, J G Owen

Cof;-0210/14/A Cyflwyniad gan Dawn Thomas "Cynllun ffrindiau

.....

Bu i Dawn Thomas ymddiheuro am fethu bod yn bresennol oherwydd gwaeledd, bu i'r Clerc addo trefnu dyddiad arall iddi.

Cof;-0310/14 Datgan Diddordeb.

.....

Bu i'r Cyng. Alan Williams ddatgan diddordeb mewn eitem ar gais am gyfraniad ariannol gan "Hwyl yr ŵyl" a'r Cyng. Henry Williams ar "tîm pêl droed y Merched

Cof;- 0410/14 Gair gan y Maer.

.....

Gwelir copi o adroddiad y Maer ar ddiwedd y cofnodion hyn.

Cymerwyd y cyfle i longyfarch Gruffydd mab y Maer ar ennill cadair mewn Eisteddfod.

Cof;-0510/14 Materion Cyfansoddiadol a Staff.

.....

Nod oedd unrhyw fater i'w drafod.

Cyngor Tref

PWLLHELI

Cof;- 0610/14 Aelodau'r Cyhoedd yn Bresennol.

.....

Yr oedd 1 Aelod o'r Wasg yn bresennol.

Cof;-0710/14 Cadarnhau Cofnodion cyfarfod Mis Medi.

.....

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mis Medi fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol a'r gyfraith

Cof;- 0810/14 Materion yn codi trwy ohebiaeth

.....

a) Safle Ail Gylchu.

Derbyniwyd ymateb Cyngor Gwynedd yn egluro fod y ffigyrau a ddangosir ar y safle yn berthnasol i berfformiad y ganolfan ailgylchu yn unig h.y. O'r gwastraff ddaw mewn perfformiad ail gylchu yn 7u4% Mae'r ffigwr yma yn newid yn fisol.
Mae perfformiad cyfanswm Gwynedd yn adrodd ar yr holl wastraff a gesglir gan y Cyngor sef cyfuniad o;=
Wastraff domestig, masnachol, glanhau stryd, bwyd, ail gylchu, gwastraff gwyrdd swmpus, gwaredu anghyfreithlon, canolfannau ail gylchu ynghyd a gwastraff clinigol.
Wrth gofnodi lle mae'r holl wastraff yn mynd drwy drefn statudol mae perfformiad Gwynedd a phob Awdurdod arall yn cael ei ddadansoddi.
Ar ddiwedd Mawrth 2014 yr oedd y ffigwr hen yn 54% o'r holl wastraff a gasglwyd yn Gwynedd y llynedd a bu ail gylchu 53.03%

PENDERFYNIAD;- Derbyn y wybodaeth.

b) Cae Dafis,

Ymhellach i ymholiadau'r Cyngor derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth berchnogion y darn tir yn egluro ei bod yn bwriadu ei dacluso a rhoi wyneb caled arno i arbed cynnal a chadw rheolaidd.

PENDERFYNIAD;-Adroddwyd fod y gwaith wedi ei ddechrau a diolchwyd i'r perchennog am roi sylw buan i'r mater a derbyn yr adroddiad..

c)Cynllun Peilot Pwllheli

Derbyniwyd ymateb i ohebiaeth y Cyngor Tref yn egluro i Gyngor Gwynedd wneud gwaith brys ar draeth Crugan yn filyn difrod y gaeaf, b u i'r adran wneud gwaith argyfwng am gost oddeutu £15,000.

Ar ôl cwblhau'r gwaith yma symudwyd ymlaen i drefnu opsiwn mwy hir dymor a hyd yn hyn canran bychan iawn o'r £259,000 sydd wedi ei wario, y prif reswm am hyn oedd nad oeddem am gychwyn y gwaith yn ystod tymor yr haf na chwaith yn erbyn amodau'r drwydded forwrol. Sydd yn datgan *na oeddem i gychwyn unrhyw waith ar y strwythur tan yr oedd cyfnod tymor ymdrochi wedi dod i ben ar 30 Medi.*,Byddai dechrau cyn hyn efallai wedi gweld colli statws y Faner Las

Erbyn hyn mae contractwyr wedi ei penodi a'i briff yw ail godi'r rhannau gwaethaf o'r strwythur i'r cyflwr oedd wedi ei ddylunio yn wreiddiol. Mae hyn yn cadw o fewn gofynion "Shoreline Management 2" bydd y gwaith yn rhedeg hyd at 7 Tachwedd 2014. ond er mwyn cael trefniant wrth gefn mae'r gontract yn rhedeg tan 18 Rhagfyr 2014.

PENDERFYNIAD;- Derbyn y wybodaeth.

Cyngor Tref

PWLLHELI

Cof;-0910/14 Ceisiadau Cynllunio

.....

a) Cais C14/0863/45/LL
Wyneb newydd i fwyty
Polish Balti 28, Stryd Penlan.

PENDERFYNIAD;- Argymell Caniatáu

b) Cais C14/0884/45/LL
Cais i ddiwygio gosodiad a dyluniad y 6 tŷ a ganiatawyd o dan gais C13/1209/45/LL ynghyd ac adeiladu 1 tŷ un llawr ychwanegol i roi cyfanswm o 7 tŷ ar y safle.

PENDERFYNIAD;-Argymell Caniatáu

c) Cais C14/0916/45/LL
Estyniad llawr cyntaf cefn a cloddio tir a chodi wal gynnal
7 Lon Abererch

PENDERFYNIAD:-Argymell Caniatáu

d) Cais C14/0880/45/LL
Creu 2 faes parcio ar gyfer cyfanswm o 39 o gerbydau.
ystâd Morfa Garreg.

PENDERFYNIAD:-Argymell Caniatáu ond ar yr un pryd tynnu sylw yr ymgeisydd y dylid efallai ystyried gwneud y Maes parcio ychydig yn llai a defnyddio tir wrth ochr rhif 91 Morfa Garreg i greu gweddill man parcio
(Bu i'r Dirprwy Faer gymeryd y gadair yn ystod yr eitem yma, gan i'r Cyng. M Sol Owen y Maer ddatgan nad oedd yn dymuno cymeryd rhan yn y drafodaeth, y penderfyniadau na phleidleisio ar unrhyw un o'r cynlluniau am ei fod yn Gynghorydd ar Gyngor Gwynedd.)

Cyngor Tref

PWLLHELI

Cof;-1010/14 Llifogydd.

.....

Tynnwyd sylw i gyflwr yr Harbwr bach yn lle mae gordyfiant yn achosi iddo brysur gau, Yn naturiol yr oedd cryn bryder am hyn a ninnau yn wynebu tymor y gaeaf, atgoffwyd pawb fod cyfarfod safle wedi ei gael gyda cynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru rai misoedd yn ôl bellach. ar y pryd rhoddwyd addewid y byddai y broblem yn cael sylw buan, Mae pryder be bai rhai o'r coed sydd yn tyfu ynddo yn digwydd syrthio y gallai achosi rhwystr i'r llifddorau weithio yn iawn ei cadw ar agor yn ystod oriau llanw ac achosi gor-lifiad sylweddol yn y Dref. Addawodd y Maer fynd draw i dynnu lluniau a'i pasio ymlaen i'r Clerc.

PENDERFYNIAD:;- Anfon at Cyfoeth Naturiol Cymru i'w atgoffa am yr addewid ac atodi lluniau i ddangos ei gyflwr presennol

Cof;-1110/14 Cofeb Cynan.

.....

Adroddodd Aelod o'r is bwyllgor ei fod yn gobeithio gallu cyflwyno adroddiad llawn yn y cyfarfod nesaf i'r Cynghorwyr allu symud ymlaen a gwneud penderfyniadau.

PENDERFYNIAD:- Derbyn yr wybodaeth.

Cof;-1210/14 Adroddiad ar sefyllfa ariannol y Cyngor

.....

Cyflwynodd y Clerc adroddiad ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor gyda amcangyfrif o'r arian sydd ar gael ar gyfer cyfraniadau neu brosiectau o hyn i ddiwedd Mawrth 2015.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth.

Cof;-1310/14 Ethol dau Aelod i archwilio dogfennau ariannol y Cyngor.

.....

Gofynnodd y Clerc am i'r Cyngor ethol dau Aelod i archwilio'r dogfennau ariannol ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref yn ei cyfarfod nesaf.

Cyngor Tref

PWLLHELI

PENDERFYNIAD;- Etholwyd y Maer,Cyng. M Sol Owen a'r Cyng. Dewi Jones i archwilio'r dogfennau ariannol a rhoi adroddiad pellach i'r Cyngor.

Cof;1410/14 Cais am gyfraniad ariannol.

.....

a) Clwb pêl droed y Merched

Gwnaed cais gan y Clwb sydd ond wedi ei sefydlu yn ddiweddar am gyfraniad ariannol i gyfarfod ei costau.

PENDERFYNIAD:-Gwneud cyfraniad o £500.

(Bu i'r Cyng. Henry Williams ddatgan diddordeb yn y mater a gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth)

b) Hwyl yr ŵyl.

Gwnaed cais eto eleni gan Bwyllgor Hwyl yr ŵyl am gyfraniad tuag at ei costau. Yr oedd yr Aelodau yn unfrydol fod y mudiad yma yn gwneud gwaith rhagorol yn ystod tymor y Nadolig i ddenu pobl i'r Dref gyda'i gwahanol weithgareddau ac yn dymuno rhoi pob cefnogaeth bosibl iddynt.

PENDERFYNIAD;- Yn unfrydol rhoi cyfraniad o £2,000.

(Bu i'r Cyng. Alan Williams ddatgan diddordeb yn y mater a gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth)

Cof;-1510/14 Traffig Stryd Moch

.....

Yng nghyfarfod y Cyngor Tref 1 Mai bu peth trafodaeth ar draffig Stryd Penlan ac ar yr un pryd bu gofyn a,m roi ystyriaeth i draffig un ffordd ar Stryd Moch ,stryd gul a pheryglus i gerddwyr, yn ystod y drafodaeth yr oedd cefnogaeth gryf i'r angen o ystyried gwneud rhywbeth ac felly cysylltu a Chyngor Gwynedd.

Gwnaed sylw o'r mater mewn papur wythnosol lleol ac ymateb Cyngor Gwynedd oedd ei bod yn ystyried y mater ac y byddai adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref

Cyngor Tref

PWLLHELI

Ar yr 8 Mai derbyniodd y Clerc ohebiaeth o Gyngor Gwynedd yn adrodd fod cynlluniau wedi ei paratoi ar gyfer newidiadau i lif traffig Stryd Moch ond pan drafodwyd y mater hwn gyda'r Cyngor Tref penderfynwyd peidio symud y cynllun ymlaen na rhoi copi ohono i'r Cyngor Tref. Yn anffodus nid yw'r neges yn berffaith glir pwy oedd wedi penderfynu peidio symud ymlaen a gresyn na fyddai'r Cyngor Tref wedi cael gweld copi o'r cynllun, byddai hyn yn arweiniad i'r dyfodol.
Mae yn bosibl fod peth camddealltwriaeth gan i Gyngor Gwynedd fod ar un adeg yn trafod gwelliannau Stryd Penlan a Stryd Moch. Yr oed teimlad nad oedd yn ddoeth trafod y ddwy stryd gyda'i gilydd a gwell fyddai delio a Stryd Penlan yn gyntaf ac wedyn delio a Stryd Moch.
Gan nad oedd unrhyw beth yn cael ei wneud yn Stryd Penlan rhoddwyd Stryd Moch ar y rhaglen yn Mis Mai – yn sicr mae'r mater yma yn dal yn fyw ac angen symud ymlaen i wneud penderfyniad yn fuan.

PENDERFYNIAD:- Diolch i'r Aelod am ei sylwadau ac anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am gopi o'r cynlluniau a ddarparwyd ganddynt fel man ail gychwyn ar y trafodaethau.

Cof;-1610/14 Arwyddion Ganolfan Twristiaeth.

.....

Tynnwyd sylw gan Aelod i'r Ganolfan Dwristiaeth gael ei symud yn ystod Mis Ebrill eleni i Neuadd Dwyfor,yr oedd yn symudiad digon brysiog gyda ychydig o wybodaeth ymlaen llaw,ond rhoddwyd addewid am arwyddion i arwain twristiaid i'r safle newydd,
Yn anffodus mae'r Dref yn dal i ddisgwyl am yr arwyddion yma

PENDERFYNIAD:- Anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am;-

.1 Arwyddion digonol ar gyfer tymor 2015
2. Pam ei fod yn cau ddiwedd Mis Medi? Oni fyddai diwedd Mis Hydref yn rhoi gwell gwasanaeth
3. Faint o ymholiadau a waned yn y ganolfan yn ystod tymor 2014 a beth oedd nifer y galwadau yn ystod yr un tymor yn 2013?

Cyngor Tref

PWLLHELI

Cof;1710/14 Llinellau Gwyn Pen Lon Llyn.

.....

Mewn cyfarfod safle yn Pen Lon Llyn ddechrau'r flwyddyn fe ofynnwyd am gael llinellau gwyn ger y drws sydd yn arwain i'r Lodge ac o flaen yr is orsaf drydan. Yn anffodus mae modurwyr yn dal i barcio yma bron yn ddyddiol a chreu rhwystr.

PENDERFYNIAD:- Anfon at Gyngor Gwynedd i'w atgoffa am hyn a gofyn pryd y gellir gweld y llinellau gwyn yma yn ei lle.

Cof;-1810/14 Derbyniadau

.....

£ 4.10	Llog N S Bond – Medi
£250.00	Rhent Arcêd
£250.00	Rhent Arcêd
£ 30.00	Swyddfa Archwilio Cymru – ad daliad
£2050.00	Cyngor Gwynedd – Rhent Maes Parcio

PENDERFYNIAD; Derbyn yr wybodaeth.

Cof;-1910/14 Taliadau.

.....

£ 13.80	Cynghorydd i gyfarfod allanol	202578
£ 50.00	Mrs G Roberts- Glanhau Siambr	202579
£ 294.55	Cyllid y Wlad	202581
£ 10.30	Kon-X-Wales Llun gopïo	202582
	Cyfraniadau A 137.	
£ 500.00	Clwb pêl Droed Merched Pwllheli (Cof 1410/14)	202583
£2,000.00	Hwyl yr ŵyl. (Cof 1410/14)	202584

Cyngor Tref

PWLLHELI

Daeth y cyfarfod i ben am;-7.45 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 6 Tachwedd 2014, bydd Rhaglen y cyfarfod yma yn cau ar y 27 Hydref 2014.

Materion y Maer Medi 2014.

Gwener 5ed. Medi

Uchafbwynt y mis oedd cyflwyno tlws o wenithfaen Trefor ysgythredig i'r Prifardd Guto Dafydd i gofnodi ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru - mis Awst. Mae Guto a'i wraig Lisa wedi symud yn weddol ddiweddar i Bwllheli i fyw.
Ar ôl y seremoni cafwyd lluniaeth i tua 30 'roedd wedi mynychu'r gweithgaredd.

Gwener 26ain. Medi

Yn absenoldeb y Maer bu'r Faeres yn agor Bore Coffi ar gyfer MacMillan Nurses yn y Festri Capel Penlan. Bu nifer yn galw i mewn ac 'roedd yn ymdrech llwyddiannus i gasglu pres ar gyfer elusen werthfawr.

The coffee morning at Festri Penlan, for members of Pwllheli Churches, was officially opened by mayoress Gwyneth Owen